# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg**

**Derwen Deg**
**Broad Street**
**Cyffordd Llandudno**
**LL31 9HL**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/02/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020._**
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 30 o blant. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal dydd i blant rhwng 3 mis a 4 oed, mae ar agor rhwng 07:30 a 18:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae wedi'i leoli yng Nghyffordd Llandudno, Conwy. Nia Owen yw'r unigolyn cyfrifol a Sioned Evans yw'r person â chyfrifoldeb am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Caiff gofal plant ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae hwn yn wasanaeth lle mae'r plant yn egnïol, yn hapus ac wedi ymlacio. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ac yn mynegi eu hunain yn hyderus. Caiff rhaglen amrywiol o weithgareddau ei chynllunio er budd pob plentyn. Mae ymarferwyr gofalgar a phroffesiynol yn gofalu am y plant ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ac mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol gydag ethos o brosesau hunanwerthuso rheolaidd, sy'n cynnwys awgrymiadau'r rhieni ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Cefnogir ymarferwyr yn dda ac mae partneriaethau agos â'r rhieni ac eraill yn y gymuned.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol:

- mae taflenni gwybodaeth dyddiol wedi cael eu gwella yn ôl sylwadau'r rhieni
- mae'r babanod yn mwynhau awyr iach yn fwy rheolaidd gan eu bod yn mynd i'r ardal ddynodedig yn amlach ac yn mynd am dro.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom un argymhelliad mewn perthynas â chysylltiadau â'r gymuned.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae gan y plant lefel uchel o lesiant am fod ganddynt lais cryf ac am eu bod yn gallu dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn hapus, wedi ymlacio ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr gan gymryd rhan yn y gweithgareddau diddorol a gynigir. Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn dysgu sgiliau i'w helpu i fod yn annibynnol.

### Ein canfyddiadau

Gwrandewir ar y plant a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Y plant a oedd yn dewis ble i chwarae, ac roeddent yn cael eu cefnogi a'u harwain gan yr ymarferwyr yn unol â'u dewisiadau. Gwnaeth y plant helpu eu hunain i deganau a gweithgareddau megis paentio, chwarae yn y gornel gartref ac edrych ar lyfrau. Roedd gan y plant ddewis o ardaloedd i chwarae ynddynt yn yr awyr agored ac roeddent yn hapus i symud o gwmpas ac ymgysylltu â'r gwahanol weithgareddau. Siaradodd y plant hyderus â ni am eu gweithgareddau, gan ddangos eu teganau i ni, a gan ofyn i'r ymarferwyr am yr hyn roeddent am ei gael.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwnaethant ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni a setlo'n dda. Roedd y plant yn hapus i archwilio eu hamgylchoedd, megis chwarae ar y llawr ag eitemau adeiladu. Roeddent yn uniaethu'n dda, ac yn gyfforddus â'r ymarferwyr wrth iddynt chwarae gyda'i gilydd ym mhob ystafell ac yn yr awyr agored.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr. Gwnaethant chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn hapus a gwnaethant gydweithredu â'r oedolion a oedd yn gofalu amdanynt, er enghraifft, gan alw eu henwau wrth chwarae yn y gornel gartref. Roedd y babanod yn mynd at yr ymarferwyr i gael sicrwydd a maldod ac roedd yr ymarferwyr yn barod i roi hyn iddynt pan fo angen. Roeddent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, ac yn cymryd eu tro wrth rannu'r anifeiliaid tegan. Roedd y plant yn dechrau deall anghenion unigolion eraill. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn ddweud sori heb gael ei annog pan ddigwyddodd fwrw ar draws plentyn arall ar ddamwain.

Roedd y plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac roeddent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau. Roeddent yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ac yn llawn cymhelliant, megis gweithgaredd i ddysgu lliwiau neu wneud marciau gydag un o'r ymarferwyr. Gwnaethant archwilio'r amgylchedd yn ystod chwarae rhydd a chanolbwyntio am gyfnod priodol o amser, er enghraifft, wrth baentio draig, a chawsant ymdeimlad cryf o gyflawniad wrth gwblhau'r gweithgaredd hwn.

Roedd y plant yn meithrin sgiliau i hybu eu datblygiad a'u hannibyniaeth yn gyffredinol. Roedd y plant hŷn yn mynd i'r toiledau ac yn golchi eu dwylo heb gymorth fel arfer. Roeddent yn dysgu sut i drin llyfrau'n gywir a gwisgo eu cotiau i chwarae yn yr awyr agored.

## 2. Gofal a Datblygiad — Da

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n llwyddiannus gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol.  Mae'r ymarferwyr yn ofalgar, yn fagwrus ac yn ymateb i anghenion y plant. Caiff gweithgareddau diddorol eu cynllunio'n ofalus a'u darparu er mwyn hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant am eu bod yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Roeddent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd rhifau ffôn ar gyfer yr asiantaethau perthnasol yn cael eu harddangos. Roedd yr ymarferwyr yn gyfarwydd â'r prosesau diogelu. Roedd gan bob ymarferydd gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos bod digwyddiadau yn cael eu trin yn briodol a bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt ac yn llofnodi'r cofnodion.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr ymarferwyr yn cadw'r arwynebau'n lân rhwng gweithgareddau, ac roeddent yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer lleihau'r risg o ledaenu heintiau mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Rhoddwyd byrbrydau a phrydau iach i'r plant gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Roedd bwydlen faethlon yn sicrhau bod amrywiaeth dda yn cael ei chynnig. Roedd hylendid deintyddol yn cael ei hybu wrth i'r ymarferwyr helpu’r plant i frwsio eu dannedd bob dydd. Roedd chwarae yn yr awyr agored yn cael ei gynllunio ar gyfer pob grŵp oedran ac roedd y staff yn mynd â gemau dan do allan er mwyn ychwanegu at yr ardaloedd awyr agored fel y gallai'r plant fwynhau'r awyr iach a chwarae mwy corfforol. Roedd cofnodion o ymarferion tân rheolaidd gydag ymarferwyr yn dangos eu bod yn gwybod sut i adael y safle'n ddiogel mewn argyfwng.

Roedd yr ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda, gan helpu'r plant i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol. Roeddent yn fodelau rôl da ac yn ymgysylltu'n hapus â'r plant yn rheolaidd ac yn eu hannog i ddweud "Diolch".  Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio technegau cadarnhaol yn llwyddiannus ac yn canmol y plant yn aml, er enghraifft, am dacluso'r teganau. Defnyddiwyd sticeri fel gwobrau ar gyfer cyflawniadau unigol megis mynd i'r toiled a chwblhau eu gwaith paentio. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio'r cynllun 'Helpwr Heddiw' i roi cyfrifoldebau syml i'r plant, gan roi ymdeimlad o hunanbarch iddynt hefyd.

Roedd yr ymarferwyr galluog yn hybu dysgu'r plant drwy ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ac roeddent yn diwallu anghenion unigol am eu bod yn adnabod y plant yn dda.

Er enghraifft, roedd rhestr o blant ag alergeddau'n cael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn gwybod i beidio â rhoi cynhyrchion penodol i'r plant a oedd yn cael eu henwi. Roeddent yn darparu awyrgylch gofalgar a oedd yn meithrin y plant, ac yn rhoi gofal ymatebol. Roeddent hefyd yn brofiadol wrth ofalu am blant ag anghenion ychwanegol. Roedd yr ymarferwyr yn hybu datblygiad pob plentyn drwy ddarparu cyfoeth o brofiadau chwarae a dysgu ysgogol. Er enghraifft, roedd y babanod yn chwarae mewn blawd, gan roi profiadau synhwyraidd iddynt. Roedd cynlluniau ysgrifenedig ar gyfer y plant hŷn yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu â gweithgareddau yn unol â meysydd y Cyfnod Sylfaen, gan hybu eu datblygiad cyffredinol. Roedd yr ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy ddarparu amgylchedd ieithyddol cyfoethog a dathlu pob math o bethau Cymreig, megis Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Roedd yr ymarferwyr yn tracio cynnydd y plant, a oedd yn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio gweithgareddau i gynnwys y camau nesaf yn natblygiad y plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r lle'n addas, dan do ac yn yr awyr agored, ac mae'r plant yn cael eu goruchwylio'n dda gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r arweinwyr hefyd yn darparu amgylchedd sy'n amrywiol, yn ysgogol ac yn addas i'r plant. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda ac yn galluogi'r ymarferwyr i hyrwyddo datblygiad y plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac roedd yr ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda. Roedd mynedfa ddiogel â chlo arni, ac roedd cofnod yn cael ei gadw o'r holl ymwelwyr. Nid oedd unrhyw beryglon yn yr ardaloedd dan do, ac roedd asesiadau risg ysgrifenedig a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y rhain eu rhannu â'r ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o risgiau posibl a sut i'w lliniaru. Roedd yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio yn ystod yr ail ymweliad ac roedd asesiadau risg ychwanegol wedi'u cwblhau gan fod yr ardal wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch ar waith megis giard bysedd ar bob drws a gorchuddion dros y rheiddiaduron.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd ysgogol i'r plant sy'n addas ar eu cyfer. Roedd yr amgylchedd yn olau, yn agored ac yn groesawgar i'r plant a'u teuluoedd ac roedd yn cynnwys arddangosfeydd o luniau o'r plant a'u gwaith ar y waliau. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio tair ystafell ar gyfer yr oedrannau gwahanol ac ystafelloedd ychwanegol ar gyfer y babanod a oedd yn cysgu, y cyfleusterau newid cewynnau a'r toiledau. Roedd pob ardal dan do ac yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio'n dda gan yr ymarferwyr gan sicrhau amrywiaeth o amgylcheddau i'r plant eu mwynhau. Roedd y gegin a'r swyddfa hefyd yn sicrhau bod man i'r ymarferwyr gymryd egwyl a pharatoi bwyd. Roedd digon o adnoddau yn yr ardal awyr agored ac roedd yn cynnwys llawer o ardaloedd gan gynnwys siglenni pren, cegin fwd, tŷ bach twt pren ac ardaloedd i dyfu planhigion. Y tu mewn, roedd cadeiriau a byrddau cadarn o faint addas i blant yn cael eu defnyddio yn ogystal â dodrefn ar gyfer y babanod a darpariaeth blynyddoedd cynnar. Roedd toiledau a sinciau bach ar gael er mwyn galluogi'r plant i'w defnyddio'n annibynnol. Roedd digon o le storio ar gael ar gyfer yr adnoddau dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau y gall y plant fwynhau ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu ysgogol o ansawdd da. Roedd yr holl deganau a gemau yn lân, yn gweithio'n dda ac yn cael eu storio ar lefel taldra'r plant. Roedd y cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu, megis ratlau a theganau synhwyraidd babanod, tŷ doliau, cornel gartref, doliau a bygis ar gyfer y plant hŷn. Roedd yr arweinwyr wedi darparu llyfrau a chornel gyfforddus i'r plant helpu eu hunain

iddynt. Roedd labeli Cymraeg yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r feithrinfa. Roedd deunyddiau naturiol ar gael i'r plant eu trin, megis conion a dail ar y bwrdd natur. Roedd llyfrau a theganau i gynrychioli'r gymdeithas ehangach a hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo cynaliadwyedd, ac roedd y plant wedi defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu i greu modeli. Roedd y plant hefyd yn dysgu am ailgylchu, gan fod gwastraff bwyd a gwahanol ddeunyddiau'n cael eu rhoi mewn cynwysyddion ar wahân.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli — Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn wybodus ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Mae hunanwerthuso yn effeithiol a gwneir gwelliannau gan ystyried pawb dan sylw. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae partneriaethau â'r rhieni ac eraill yn effeithiol er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr, sef yr unigolyn cyfrifol, person â chyfrifoldeb cymwys a'r dirprwy, ymdeimlad o ddiben a disgwyliadau er mwyn hybu gwelliant a chanlyniadau da i'r plant. Er enghraifft, gwelsom fod y gweithlu yn hapus, yn gymwys ac yn broffesiynol, a bod y datganiad o ddiben yn gyfredol. Gwelsom ymarfer cyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth, ac roedd yr ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r arweinwyr bob amser wedi cydymffurfio ag unrhyw argymhellion yn brydlon ac yn sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu cyflawni, fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda, ac yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso a gwella parhaus. Mae'r rhieni yn derbyn holiaduron i'w cwblhau a chaiff eu hymatebion eu hystyried. Mae'r adroddiad am ansawdd y gofal yn gynhwysfawr ac mae'n cynnwys cynlluniau i wella. Mae'r ardal awyr agored yn parhau i gael ei gwella. Rhoddwyd cyfrifoldebau ychwanegol i un ymarferydd mewn perthynas â chynllun yr ystafelloedd ac roedd y plant a'r ymarferwyr yn cael budd o'r gwelliannau a wnaed.

Roedd yr ymarferwyr yn gymwysedig iawn ac roedd ganddynt wybodaeth dda am y plant a oedd yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn brydlon, ac roeddent yn gofalu am y plant yn dyner ac yn garedig. Roedd hyfforddiant gorfodol, megis hyfforddiant mewn cymorth cyntaf a diogelu, wedi cael ei gwblhau, a chwblhawyd cyrsiau ychwanegol, a oedd yn helpu o ran anghenion ychwanegol a maeth. Gwnaeth yr arweinwyr gyflogi cogydd dynodedig i baratoi byrbrydau a phrydau gan ryddhau'r ymarferwyr i roi sylw i ofal y plant.

Roedd y cydberthnasau â'r rhieni yn gadarn. Roeddent yn siarad â'r ymarferwyr yn rhydd ac yn cael taflenni dyddiol yn adlewyrchu diwrnod y plentyn yn y gwasanaeth. Roedd nosweithiau rhieni'n cael eu trefnu hefyd er mwyn i'r rhieni drafod cynnydd eu plentyn. Roedd y plant cyn ysgol yn mynd â thegan penodol adref ac yn ei ddychwelyd â lluniau o'u profiadau a oedd yn cael eu cynnwys mewn ffolder arbennig. Mae hyn yn gwella'r cydberthnasau â theuluoedd y plant. Roedd llawer o asiantaethau allanol yn cael eu defnyddio i fanteisio ar gyngor a chyrsiau. Roedd ymwelwyr a theithiau'n gwella profiadau dysgu a mwynhad y plant, megis gweld injan dân ac ymweld â'r safle RSPB lleol, ond gellid datblygu hyn ymhellach.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom un argymhelliad i ddatblygu cysylltiadau yn y gymuned ymhellach.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 09 Ionawr 2020 rhwng 09.15 a 12.40. Cwblhawyd ail ymweliad ar 07 Chwefror 2020, rhwng 10.30 ac 13.00 er mwyn gweld yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio wedi iddi gael ei hadnewyddu.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant, un rhiant a chwe ymarferydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- rhoi gwybod i'r unigolyn cyfrifol am ein canfyddiadau ar 7 Chwefror 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Nia Owen** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Sioned Evans** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **30** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis – 4 oed** |
| **Oriau agor** | **7.30 – 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **10 Ionawr 2018** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **09 Ionawr a 07 Chwefror 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/03/2020